Workways Gweithffyrdd
your route to employment
eich llwybr at swydd

# Pembrokeshire Newsletter

March 2014

## *Inside this issue:*

## Milford Haven man lands dual job role with support from Workways (Page 3)




**4000!**

4,000 people find job with help from EU-backed project
(Page 4)

Linda goes back to school!
(Page 2)

**Contact us:**

**Address: The Old Library, Hamilton Terrace, Milford Haven, Pembrokeshire, SA73 3JP**
**Tel:** 01437 775265 **Web:** www.workways.co.uk
**Email:** workways@pembrokeshire.gov.uk

Neath Port Talbot County Borough · Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr · Bridgend County Borough Council
Cyngor Sir Gâr · Carmarthenshire County Council
Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council
City and County of Swansea · Dinas a Sir Abertawe
ESF · Llywodraeth Cymru · Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol · Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future · European Social Fund

# Linda goes back to school!




A young mother has gone back to school, thanks to the support of a local employment project. After nine years away from the workplace, Linda Baker from Pembroke Dock has found a new job at a local school.

The mother of two was helped into her new role as a receptionist at Pembroke Dock Community School by the South West Workways Project- an EU backed employment project.

“It’s the first time I’ve worked in nine years and I absolutely love it,” she said.

“No day is ever the same. It’s also brilliant to be able to support my family.”

Linda began considering a return to work when her youngest child reached five. But despite submitting applications for numerous jobs, her childcare commitments, inability to drive and lack of recent work experience meant she was not even offered any interviews. So Linda signed up to Workways where she received tailored support.

“Workways helped me with my CV, they set me up on Universal Jobmatch and they put me on an interview techniques course,” she said.

When Linda mentioned she was volunteering at Pembroke Dock Community School as part of undertaking an NVQ in Business Administration, Workways secured her a paid temporary job as a receptionist at the school.

The role was ideal as the hours fitted around her children and she could also walk to work.
And when the school got new funding, Linda was made a permanent member of staff.

“Workways is excellent, especially if you’re lacking confidence. They build you up, there’s always someone there to talk to and they help you adjust to just getting out there and meeting people.”

## Milford Haven man lands dual job role with support from Workways




A Milford Haven man who was unemployed for over a year is back in work thanks to the support of an EU-backed employment project.

Now, 45 year old Manuel Barbosa is working as a labourer and taxi driver with Milford Haven based companies Smith Pembrokeshire Group and Link Taxis after receiving a helping hand from South West Workways.

Having been laid off from a labouring job at Pembroke Refinery in December 2012, Manuel was having difficulty finding employment. In fact, all his speculative applications were met with silence.

"I didn't have the right qualifications to get a construction job - if you don't have a ticket, you can't get on site. It was a stressful time," said Manuel.

Having been referred to Workways by Jobcentre Plus, Manuel's search for employment took an upward turn.

In addition to completing a welding qualification off his own back, Manuel was helped by Workways to search for job vacancies and received funding to complete a Hackney Carriage Licence and purchase protective equipment. This led to him accessing temporary jobs as a labourer with Smith Pembrokeshire Group and a driver with Link Taxis.

Manuel is delighted to have now been kept on permanently by both companies.

"It's good to finally have a job again - things are much easier with money," he said.

Manuel added "Workways are the best because they've given me everything I needed; everyone was really helpful."

# Come and see us

We have regular job search sessions throughout the week. Please come along to get help with finding vacancies, completing application forms and drafting your CV:

| Day | Venue | Time | Activity |
|---|---|---|---|
| Monday | PAVS, 36/38 High Street, Haverfordwest SA61 2DA | 10am - 2pm | Outreach |
| Tuesday | Workways, The Old Library, Hamilton Terrace, Milford | 10am - 2pm | Outreach |
| Wednesday | Pembroke Dock Youth Centre, Bush Street, Pembroke | 10am - 2pm | Outreach |

Visit — www.workways.co.uk

## 4,000 people in South West Wales find job with help from EU-backed employment project

# 4000!

New figures show that over **4,000 people** in South West Wales have found jobs with the help of the South West Workways project.

This important milestone provides additional good news to a recent report by the Centre for Economic and Social Inclusion which found that "Workways is performing well against its key outcome targets, with high levels of satisfaction from participants and employers, and an excellent employment-outcome rate."

Workways helps jobseekers overcome the barriers which prevent them from finding employment. The project is backed by the European Social Fund through the Welsh Government and is led by Neath Port Talbot Council in collaboration with Bridgend, Carmarthenshire, Pembrokeshire and Swansea Councils.

Participants receive help with job applications, CVs, interview techniques, personal development and access to training. Where appropriate, they also undertake paid temporary jobs with local employers to help them gain the experience needed to find long term employment. This is a particularly successful part of the project as **64% of participants** who undertake a temporary job move into permanent employment at the end of their contract.

Workways also provides recruitment support for local companies by advertising vacancies to its pool of job ready participants, shortlisting candidates, organising recruitment days and exploring business support avenues. Since 2009, the project has been in contact with **4905 businesses** across South West Wales.

Marjorie Bartlett, Workways Regional Project Manager, said "This is another important milestone for Workways. The achievement is a testament to the hard work of the Workways team and the jobseekers we have supported."

Councillor Ali Thomas, Leader of Neath Port Talbot Council said "Congratulations to Workways and all the people across South West Wales who have found jobs with the support of the project. Workways provides invaluable support to jobseekers across South West Wales."

# Meet the Workways team:



Eleanor Rees

ELO Team Leader



Glyn Harteveld

Coach Team Leader



Chris Farrow

Performance & Quality Manager



Adrian Reynolds

Project Supervisor



Sue Nolan

Employer Liaison Officer



Darren Martin

Employer Liaison Officer



Laura Richards

Employer Liaison Officer



Gillian Nunnery

Employment Coach



Annabel Luxton

Employment Coach



Samantha Lancaster

Employment Coach



Victoria Stevens

Employment Skills Tutor



Gosia Pucolowska

Admin Assistant



Carly Phillips

Admin Assistant

Workways is part funded by the European Social Fund
through the Welsh Government

# Workways Gweithffyrdd

your route to employment
eich llwybr at swydd

# Cylchlythyr Sir Benfro
## Mawrth 2014

*Yn y rhifyn hwn:*

**Dyn o Aberdaugleddau yn sicrhau swydd ddeuol - gyda chymorth Gweithffyrdd** (Tudalen 8)




**4000!**

4,000 o bobl yn dod o hyd i waith gyda chymorth prosiect cyflogaeth a gefnogir gan yr UE (Page 9)

Linda'n dychwelyd i'r ysgol! (Page 7)

**Cysylltwch â ni:**
**Cyfeiriad: Yr Hen Lyfrgell, Hamilton Terrace, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3JP**
**Ffôn:** 01437 775265 **Gwefan:** www.workways.co.uk
**E-bost:** workways@pembrokeshire.gov.uk

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

# Linda'n dychwelyd i'r ysgol!




Mae mam ifanc wedi dychwelyd i'r ysgol, o ganlyniad i'r cymorth y mae hi wedi'i gael gan brosiect cyflogaeth lleol. Ni fu Linda Baker, o Ddoc Penfro, yn y gweithle ers naw mlynedd ond bellach mae hi wedi sicrhau swydd newydd iddi ei hun mewn ysgol leol.

Mae hi'n fam I ddau blentyn a chafodd gymorth i sicrhau ei swydd newydd—derbynwraig yn Ysgol Doc Penfro—gan brosiect Gweithffyrdd y De-orllewin; prosiect cyflogaeth sy'n cael cymorth ariannol gan yr UE.

"Dyma'r tro cyntaf i mi weithio ers naw mlynedd ac rwyf yn dwlu ar y swyddd," meddai.

"Mae pob diwrnod yn wahanol i'w gilydd ac maen'n wych hefyd, gan fy mod yn gallu cynorthwyo i gynnal fy nheulu."

Fe ddechreuodd Linda ystyried dychwelyd i'r gwaith pan wnaeth ei phlentyn ieuengaf gyrraedd ei bump oed. Ond er iddi wneud cais am sawl swydd roedd materion fel gofal plant, y ffaith na allai yrru car a'r prinder profiad gwaith diweddaraf oedd ganddi, yn golygu na chafodd hi unrhyw gyfweliadau hyd yn oed.

Ac felly fe ymgofrestrodd Linda i ymuno â phrosiect Gweithffyrdd, lle cafodd hi gymorth wedi'i addasu'n bwrpasol iddi.

"Fe roddodd Gweithffyrdd gymorth i mi gyda'm CV, trefnu Universal Jobmatch ar fy nghyfer a sicrhau fy mod yn cael mynd ar gwrs technegau cyfweliad." meddai.

Pan dywedodd Linda ei bod hi'n gwneud gwaith gwirfoddolyn Ysgol Gymunedol Doc Penfro fel rhan o'r cwrs NVQ mewn Gweinyddu Busnes yr oedd hi'n ei ddilyn, fe wnaeth Gweithffyrdd sicrhau swydd dros dro â chyflog iddi, fel derbynwraig yn yr ysgol. Roedd y swydd yn berffaith gan fod yr oriau 'n addas ar gyfer ei phlant a gallai hi hefyd gerdded i'r gwaith. A phan gafodd yr ysgol gyllid ychwanegol cafodd Linda ei pgenodi yn aelod parhaol o'r staff.

"Mae Gweithffyrdd yn rhagorol, yn enwedig felly os ydych chi'n brin o hunan hyder" meddai,

Maent yn meithryn hyder, ac mae gyda hwy wastad rywun yno y gallwch chi gael gair â. Maent hefyd yn eich helpu i ymaddasu i'ch sefyllfa newydd, er mwyn ichi fynd mas i gwrdd â phobl."

# Dyn o Aberdaugleddau yn sicrhau swydd ddeuol iddo'i hun - gyda chymorth Gweithffyrdd




Mae dyn o Aberdaugleddau a fu'n ddi-waith ers dros flwyddyn wedi llwyddo i gael swydd o ganlyniad i'r cymorth a gafodd gan brosiect cyflogaeth sy'n cael ei gefnogi gan yr Undeb Ewropeaidd.

A bellach ar ôl cael help llaw gan Gweithffyrdd y De-orllewin mae gan Manuel Barbosa, 45 oed, swydd ddeuol – labrwr a gyrrwr tacsi – mewn dau gwmni a leolir yn Aberdaugleddau, Smith Pembrokeshire Group a Link Taxis.

Roedd gydag e swydd labro ym Mhurfa Olew Penfro ond ym mis Rhagfyr 2012 cafodd ei ddiswyddo dros dro, ac ers hynny roedd e wedi cael anhawster cael swydd. Yn wir, ni chafodd ateb i unrhyw un o'i geisiadau ar hap.

"Nid oedd gyda fi'r cymwysterau iawn er mwyn cael swydd ym maes adeiladu - os nad oes cymhwyster 'da chi, chewch chi ddim mynd ar y safle. Roedd hi'n adeg boenus iawn imi," meddai Manuel.

Fe wnaeth y Ganolfan Byd Gwaith roi Manuel ar ben y ffordd a'i anfon at Gweithffyrdd, a dyna pryd y daeth tro ar fyd iddo yn ei ymdrech i gael swydd. Yn ogystal â chwpla cymhwyster mewn weldio ar ei liwt ei hun, cafodd Manuel gymorth gan Gweithffyrdd i chwilio am swyddi gwag a chyllid i gael Trwydded Cerbyd Hur ac i brynu offer diogelu personol. O ganlyniad i hynny fe wnaeth e lwyddo i gael swyddi dros dro, fel labrwr gyda Smith Pembrokeshire Group a gyrrwr gyda Link Taxis.

A bellach mae gan Manuel swydd lawn amser â'r ddau gwmni, sy'n rhyngu ei fodd yn fawr iawn.

"Mae'n wych, oherwydd o'r diwedd mae gyda fi swydd unwaith eto – ac oherwydd hynny mae pethau'n llawer mwy cyfforddus, o ran arian," meddai.

Ac meddai Manuel wedyn "Mae Gweithffyrdd yn rhagorol gan eu bod wedi rhoi imi bopeth yr oedd arnaf ei angen: roedd pawb yn gymwynasgar dros ben."

# Dewch i'n Gweld ni

Rydym yn cynnal sesiynau chwilio am swyddi rheolaidd drwy gydol yr wythnos. Dewch i gael cymorth i ddod o hyd i swyddi gwag, llenwi ffurflenni cais a llunio eich CV:

| Diwrnod | Lleoliad | Amser | Gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 36 - 38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 2DA | 10am - 2pm | Allgymorth |
| Dydd Mawrth | Y Hen Lyfrgell, Hamilton Terrace, Aberdaugleddau SA73 3JP | 10pm - 2pm | Allgymorth |
| Dydd Mercher | Canolfan Ieuenctid Doc Penfro, Bush Street, Doc Penfro SA72 6HQ | 10am - 2pm | Allgymorth |

# 4,000 o bobl yn ne-orllewin Cymru yn dod o hyd i waith gyda chymorth prosiect cyflogaeth a gefnogir gan yr UE.

**4000!**

Yn ôl ffigurau newydd mae dros **4,000** o bobl yn ne-orllewin Cymru wedi dod o hyd i swyddi gyda chymorth gan brosiect Gweithffyrdd y De-orllewin.

Mae'r garreg filltir bwysig hon yn newyddion da iawn ynghyd ag adroddiad diweddar gan y Ganolfan Economaidd a Chynhwysiad Cymdeithasol a ddywedodd, "Mae Gweithffyrdd yn cyflawni ei dargedau canlyniadau allweddol, gyda lefelau uchel o foddhad gan gyfranogwyr a chyflogwyr, a chyfradd canlyniadau cyflogaeth wych."

Mae Gweithffyrdd yn helpu pobl sy'n chwilio am swyddi i oresgyny rhwystrau sy'n eu hatal rhag dod o hyd i waith. Mae'r prosiect, sy'n cael ei gefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, yn cael ei arwain gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar y cyd â Chynghorau Sir Gâr, Sir Benfro ac Abertawe.

Mae'r cyfranogwyr yn derbyn cymorth o ran llenwi ffurflenni cais, CVs, techneg cyfweliad, datblygiad personol a chyfleoedd hyfforddiant. Lle y bo'n briodol, maent hefyd yn ymgymryd â swyddi cyflogedig dros dro gyda chyflogwyr lleol er mwyn eu helpu i ennill y profiad y mae ei angen arnynt i ddod o hyd i swyddi parhaol. Dyma elfen arbennig o lwyddiannus o'r prosiect gan fod 64% o'r cyfranogwyr sy'n ymgymryd â swydd dros dro'n symud i gyflogaeth barhaol erbyn diwedd eu contract.

Mae Gweithffyrdd hefyd yn darparu cefnogaeth recriwtio i gwmnïau lleol trwy hysbysebu eu swyddi gwag i'w gronfa o gyfranogwyr sy'n barod am waith, llunio rhestrau byrion o ymgeiswyr, trefnu diwrnodau recriwtio ac archwilio llwybrau cefnogi busnes. Ers 2009, mae'r prosiect wedi bod mewn cysylltiad â 4905 o fusnesau ar draws de-orllewin Cymru.

Meddai Marjorie Bartlett, Rheolwr Prosiect Rhanbarthol Gweithffyrdd, "Mae hon yn garreg filltir bwysig arall i Gweithffyrdd. Mae'r cyflawniad hwn yn cydnabod holl waith caled tîm Gweithffyrdd a'r bobl sy'n chwilio am waith rydym wedi'u cefnogi."

Meddai Ali Thomas, Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, "Llongyfarchiadau i Gweithffyrdd a'r holl bobl ar draws de-orllewin Cymru sydd wedi dod o hyd i waith gyda chefnogaeth y prosiect. Mae Gweithffyrdd yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy i bobl sy'n chwilio am waith ar draws De-Orllewin Cymru.

# Cwrdd â Thîm Gweithffyrdd:


Eleanor Rees

Arweinydd Tîm SCC


Glyn Harteveld

Arweinydd Tîm Hyfforddwyr


Chris Farrow

Rheolwr Perfformiad ac Ansawdd


Adrian Reynolds

Goruchwyliwr Prosiect


Sue Nolan

Swyddog Cyswllt Cyflogaeth


Darren Martin

Swyddog Cyswllt Cyflogaeth


Laura Richards

Swyddog Cyswllt Cyflogaeth


Gillian Nunnery

Hyfforddwr Cyflogaeth


Annabel Luxton

Hyfforddwr Cyflogaeth


Mike Lloyd

Hyfforddwr Cyflogaeth


Victoria Stevens

Tiwtor Sgiliau Cyflogaeth


Gosia Pucolowska

Cynorthwy-ydd Gweinyddol


Samantha Lancaster

Cynorthwy-ydd Gweinyddol


Carly Phillips

Cynorthwy-ydd Gweinyddol

Ariennir Gweithffyrdd yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru